Hysbysiad Preifatrwydd

1. Diben yr hysbysiad

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybod am sut ydym yn casglu a defnyddio data personol amdanoch, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), Deddf Diogelu Data 1998 ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau a deddfwriaethau eilaidd gweithredol eraill, wedi'u diwygio neu eu diweddaru o bryd i'w gilydd, yn y DU ('Deddfwriaeth Diogelu Data'). Darllenwch y canlynol yn ofalus er mwyn deall ein hymarferion o ran eich data personol a sut byddwn yn ei drin.

2. Amdanom ni

Glasdir ydy enw masnachol Canolfan Ddatblygu Wledig Conwy Cyfyngedig ("Glasdir", "ni", "ein") ac mae'n Ganolfan Fusnes a Chynadleddau. At ddiben y Ddeddfwriaeth Diogelu Data a'r hysbysiad hwn, ni ydy'r 'rheolydd data'. Golyga hyn ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn dal ac yn defnyddio data personol amdanoch. Mae gofyn arnom, dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, i roi gwybod ichi am yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Rydym wedi apwyntio Swyddog Diogelu Data. Ein Swyddog Diogelu Data ydy ein Pwynt Cyswllt Diogelu Data a chanddo gyfrifoldeb dros gynorthwyo gydag ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu sut ydym yn trin eich data personol. Os dymunwch gysylltu gyda'n Pwynt Cyswllt Diogelu Data, gallwch wneud hynny gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd wedi'u nodi ym mharagraff 12 (Cysylltu gyda ni), isod.

3. Sut byddwn yn casglu eich data personol

Byddwn yn casglu data personol amdanoch, er enghraifft, pan fyddwch yn gwneud y canlynol:

- Gofyn am ddyfynbris gennym am y gwasanaethau rydym yn eu cynnig;
- Eich bod chi neu eich cyflogwr yn cysylltu gyda ni i ddarparu ein gwasanaethau a hefyd yn ystod darpariaeth y gwasanaethau hynny;
- Anfon neu ddarparu gwybodaeth inni er mwyn cyflawni ein gwasanaethau - gall hyn fod drwy feddalwedd rhannu'r Cwmwl, cyfryngau cymdeithasol neu ar ffurf wahanol;
- Cysylltu gyda ni drwy e-bost, dros y ffôn, drwy'r post (er enghraifft, i wneud ymholiad am ein gwasanaethau); neu drwy drydydd barti a/neu adnoddau sydd ar gael yn gyhoeddus (er enghraifft, drwy eich cyflogwr neu Dŷ'r Cwmnïau).

4. Y math o wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch

Gall yr wybodaeth byddwn yn ei chadw amdanoch gynnwys y canlynol:

- Eich manylion personol (eich enw a/neu gyfeiriad), manylion cyswllt, er enghraifft, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn;
- Manylion unrhyw gyswllt rydym wedi'i wneud gyda chi o ran darpariaeth, neu ddarpariaeth arfaethedig, ein gwasanaethau;
- Manylion unrhyw wasanaeth rydych wedi'i dderbyn gennym;

- Manylion unrhyw ddyfais a thechnoleg rydych yn ei ddefnyddio;
- Manylion banc;
- Data ariannol a gweithrediadol;
- Unrhyw ohebiaeth a chyfathrebu gyda chi;
- Gwybodaeth am unrhyw gŵyn ac ymholiad byddwch yn eu cyflwyno inni;
- Gwybodaeth o waith ymchwil, arolygon a gweithgareddau marchnata;
- Gwybodaeth byddwn yn ei derbyn o ffynonellau eraill, er enghraifft, gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus;
- Gwybodaeth gan eich cyflogwr NEU ein cleientiaid.

5. Sut ydym yn defnyddio data personol sydd gennym ar eich cyfer

Efallai byddwn yn prosesu eich data personol at ddibenion angenrheidiol perfformio ein cytundeb gyda chi neu eich cyflogwr ac er mwyn cydymffurfio gyda'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Efallai byddwn yn prosesu eich data personol at ddibenion angenrheidiol perfformio ein cytundeb gyda'n cleientiaid. Gall hyn gynnwys prosesu eich data personol lle rydych yn weithiwr, isgontractiwr, cyflenwr neu gwsmer i'n cleient. Efallai byddwn yn prosesu eich data personol at ddibenion ein diddordebau cyfreithlon cyn belled â bod y diddordebau hynny ddim yn diystyru unrhyw un o'ch diddordebau, hawliau neu ryddid sy'n gofyn am ddiogelwch data personol. Mae hyn yn cynnwys prosesu ar gyfer marchnata, datblygu busnes a dibenion ystadegol a rheolaethol. Efallai byddwn yn prosesu eich data personol at ddibenion penodol ychwanegol gyda'ch caniatâd, ac yn yr amgylchiadau cyfyngedig hyn lle bydd angen eich caniatâd er mwyn prosesu eich data personol yna bydd gennych hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar gyfer prosesu at ddibenion penodol o'r fath. Efallai byddwn yn prosesu eich data personol at fwy nag un diben cyfreithlon gan ddibynnu ar y diben penodol yr ydym yn defnyddio eich data.

Sefyllfaoedd lle byddwn yn defnyddio eich data personol

Efallai byddwn yn defnyddio eich data personol er mwyn:

- Gweithredu ein rhwymedigaethau sy'n codi o unrhyw gytundebau sydd gennym gyda chi neu eich cyflogwr (fydd gan amlaf ar gyfer darparu ein gwasanaethau);
- Gweithredu ein rhwymedigaethau sy'n codi o unrhyw gytundebau sydd gennym gydag ein cleieintiaid (fydd gan amlaf ar gyfer darparu ein gwasanaethau) lle efallai byddwch yn isgontractiwr, cyflenwr neu gwsmer i'n cleient;
- Darparu gwybodaeth ichi sy'n gysylltiedig â'n gwasanaethau a'n digwyddiadau a gweithgareddau rydych yn gofyn amdanynt gennym neu rydym yn teimlo byddai o ddiddordeb ichi;
- Ceisio eich barn ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu a rhoi gwybod ichi am unrhyw newidiadau i'n gwasanaethau.
- Mewn rhai amgylchiadau efallai byddwn yn sicrhau bod eich data personol yn ddienw fel nad oes posibl ei gysylltu gyda chi, ac felly efallai byddwn yn ei ddefnyddio heb roi gwybod pellach ichi.
- Os byddwch yn gwrthod darparu unrhyw wybodaeth inni pan fyddwn yn gofyn amdani, efallai na fyddwn yn gallu perfformio'r cytundeb byddwn wedi'i llunio gyda chi. Neu, efallai na fyddwn yn gallu cydymffurfio gyda'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu reolaethol.
- Efallai byddwn hefyd yn prosesu eich data personol heb yn wybod ichi a heb eich caniatâd, yn unol â'r hysbysiad hwn, lle mae gofyn cyfreithiol arnom neu lle mae gennym ganiatâd i wneud hynny.

Cadw data

- Byddwn yn cadw eich data personol dim ond am ba mor hir fydd ei angen er mwyn bodloni'r diben y bydd wedi'i gasglu ar ei gyfer.
- Wrth asesu pa gyfnod cadw sy'n addas ar gyfer eich data personol, byddwn yn ystyried:
    - Gofynion ein busnes a'r gwasanaethau gaiff eu darparu:
    - Unrhyw rwymedigaethau statudol neu gyfreithiol;
    - Y diben y gwnaethom gasglu'r data personol ar ei gyfer yn wreiddiol; y sail gyfreithiol y gwnaethom seilio ein prosesu arni;
    - Mathau o ddata personol rydym wedi'u casglu;
    - Maint a chategorïau eich data personol; ac a fyddai posibl bodloni diben y prosesu yn rhesymol drwy ddulliau eraill

Newid diben

Lle bydd arnom angen defnyddio eich data personol at ddibenion eraill, yn wahanol i'r diben y gwnaethom ei gasglu ar ei gyfer, byddwn yn defnyddio eich data personol dim ond lle bydd y rheswm hwnnw yn gytûn gyda'r diben gwreiddiol. Os bydd yn angenrheidiol defnyddio eich data personol at ddiben newydd, byddwn yn rhoi gwybod ichi ac yn cyfathrebu gyda chi ynghylch y sail gyfreithiol sy'n ein caniatáu i wneud hynny cyn dechrau ar unrhyw brosesu newydd.

6. Rhannu Data

Pam fuasech yn rhannu fy nata personol gyda thrydydd barti?

Byddwn yn rhannu eich data personol gyda thrydydd barti lle mae gofyn inni wneud hynny yn ôl y gyfraith, lle mae'n angenrheidiol gweinyddu'r berthynas rhyngom ni neu lle mae gennym ddiddordeb cyfreithlon arall i wneud hynny.

Pa ddarparwyr gwasanaeth trydydd barti sy'n prosesu fy nata personol?

Mae "Trydydd Barti" yn cynnwys gwasanaeth trydydd barti. Mae darparwyr gwasanaeth trydydd barti yn cynnal y gweithgareddau canlynol: gwasanaethau TG [a'r cwmwl], gwasanaethau ymgynghori proffesiynol, gwasanaethau casglu dyledion, gwasanaethau gweinyddol a gwasanaethau marchnata. Mae gofyn bod ein holl ddarparwyr gwasanaeth trydydd barti yn dilyn mesurau sy'n addas a rhesymol yn fasnachol i ddiogelu eich data personol. Dim ond at ddibenion penodol byddwn yn caniatáu i'n darparwyr gwasanaeth trydydd barti brosesu eich data personol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

Beth am unrhyw drydydd barti arall?

Efallai byddwn yn rhannu eich data personol gyda thrydydd barti arall os ydy natur y gwaith rydym yn ymgymryd ag o ar eich cyfer yn gofyn ein bod yn gwneud hynny er mwyn gwneud y gwaith yn effeithiol. Efallai bydd arnom hefyd angen rhannu eich data personol gyda rheoleiddiwr neu er mwyn cydymffurfio gyda'r gyfraith.

7. Trosglwyddo Data Personol y tu hwnt i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

Ni fyddwn yn trosglwyddo'r data personol rydym yn ei gasglu amdanoch y tu allan i'r AEE oni bai eich bod yn rhoi cyfarwyddiadau penodol inni wneud hynny ar eich rhan.

8. Diogelwch Data

Rydym wedi rhoi mesurau sy'n addas a rhesymol yn fasnachol mewn lle er mwyn atal unrhyw un rhag colli yn ddamweiniol, defnyddio neu gael mynediad yn ddiawdurdod, addasu neu ddatgelu eich data personol. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i'r gweithwyr, asiantiaid, contractwyr ac unrhyw drydydd barti sydd ag angen masnachol i wybod amdano. Dim ond yn ôl ein cyfarwyddiadau byddant yn prosesu eich data personol ac maent yn amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi mewn lle dulliau i ddelio gydag unrhyw doriad diogelwch data amheus a byddwn yn rhoi gwybod ichi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol o unrhyw doriad amheus lle mae gofyn cyfreithiol arnom i wneud hynny.

9. Hawl Mynediad, Cywiro, Dileu a Chyfyngu

Eich dyletswydd i roi gwybod inni am unrhyw newid
Mae hi'n bwysig bod y data personol sydd gennym ar eich cyfer yn gywir a chyfredol. Os bydd eich data personol yn newid, rhowch wybod inni am unrhyw newidiadau y mae angen inni wybod amdanynt drwy gysylltu gyda ni, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Eich hawliau o ran data personol

O dan rhai amgylchiadau, yn ôl y gyfraith mae gennych:

- Hawl i gael mynediad at eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn manylion am y data personol rydym yn ei ddal amdanoch a gwirio ein bod yn ei brosesu yn gyfreithlon.
- Hawl i gywiro data personol sydd gennym ni amdanoch
- Hawl i ddileu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ddileu neu gael gwared ag unrhyw ddata personol lle does dim rheswm da ein bod yn parhau i'w brosesu.
- Mae gennych hefyd hawl gofyn inni ddileu neu dynnu eich data personol lle rydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).
- Hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol lle rydym yn dibynnu ar ddiddordeb cyfreithlon (neu ddiddordeb trydydd barti) ac mae rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n gwneud ichi fod eisiau gwrthwynebu prosesu ar y sail hon.
- Mae gennych hefyd hawl gwrthwynebu lle rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- Hawl i gyfyngu ar brosesu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i'n gofyn i oedi prosesu eich data personol amdanoch, er enghraifft, os ydych am inni gadarnhau ei gywirdeb neu reswm dros ei brosesu.
- Hawl i drosglwyddo eich data personol atoch neu at reolwr data arall os ydy'r prosesu yn seiliedig ar ganiatâd, wedi'i wneud drwy ddulliau awtomatig ac yn dechnolegol bosibl.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau uchod, anfonwch e-bost at ein pwynt cyswllt diogelu data: info@glasdir.com.

Ni fydd angen ichi dalu ffi i gael mynediad at eich data personol (nac i arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, efallai byddwn yn codi ffi resymol os bydd eich cais am fynediad yn amlwg yn ddi-sail neu yn eithafol. Neu, efallai byddwn yn gwrthod cydymffurfio gyda'r cais mewn amgylchiadau o'r fath.

Efallai bydd arnom angen gofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych a sicrhau eich hawl i fynediad at yr wybodaeth (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall er mwyn sicrhau na chaiff gwybodaeth bersonol ei datgelu i unrhyw un sydd heb hawl ei derbyn.

10. Hawl Tynnu Eich Caniatâd yn Ôl

Dan amgylchiadau cyfyngedig lle byddwch wedi rhoi eich caniatâd inni gasglu, prosesu a throsglwyddo eich data personol at ddiben penodol (er enghraifft, mewn cyswllt â marchnata uniongyrchol rydych wedi dweud y buasech yn hoffi ei dderbyn gennym), mae gennych hawl tynnu eich caniatâd yn ôl ar gyfer y prosesu penodol hwnnw ar unrhyw adeg.

I dynnu eich caniatâd yn ôl, anfonwch e-bost at ein pwynt cyswllt diogelu data: info@glasdir.com. Unwaith byddwn wedi cael gwybod eich bod wedi tynnu eich caniatâd yn ôl, ni fyddwn yn parhau i brosesu eich gwybodaeth bersonol (data personol) at y diben neu ddibenion wnaethoch gytuno yn wreiddiol, oni bai bod gennym sail gyfreithlon arall dros wneud hynny yn ôl y gyfraith.

11. Newidiadau i'r Hysbysiad hwn

Caiff unrhyw newidiadau byddwn yn eu gwneud i'n hysbysiad preifatrwydd yn y dyfodol eu diweddaru ar ein gwefan ar www.glasdir.com.

Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ar y 10fed o Orffennaf 2018.

12. Cysylltwch gyda ni

Os oes gennych unrhyw gwestiwn yn gysylltiedig â'r hysbysiad hwn, neu os hoffech siarad gyda ni ynghylch sut rydym yn prosesu eich data personol, anfonwch e-bost at:

info@glasdir.com neu ffoniwch Reolwr y Ganolfan, sef y Pwynt Cyswllt Diogelu Data, ar 01492 640640.

Mae gennych hefyd hawl cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data. Manylion cysylltu'r ICO yng Nghymru ydy:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
Yr Ail Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Rhif ffôn - 0330 414 6421

Gwefan - https://ico.org.uk/concerns